# RICHARDS, THOMAS (1687? - 1760), clerigwr ac awdur

**Enw:** Thomas Richards
**Dyddiad geni:** 1687?
**Dyddiad marw:** 1760
**Rhiant:** Richard Richards
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Yn ôl Foster, ganwyd ef yn Llanychaearn (Ceredigion), yr fab i Richard Richards, ond y mae'n bosibi ei fod yn aelod o deulu Richards, Coed, gerllaw Dolgellau (gweler Richards, Caerynwch). Cafodd ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (ymaelodi 27 Mawrth 1708, yn 19 oed, graddio yn 1711); dywedodd Dr. Trapp, athro barddoniaeth ym Mhrifysgol Rhydychen, ei fod yn ystyried Richards y bardd Lladin gorau er adeg Fyrsil.

Dewiswyd ef yn rheithor y Drenewydd, Sir Drefaldwyn, 1713, yn ganon Llanelwy, 1718, ac yn rheithor segur-swydd Llansannan yn 1720 (a Phennant Melangell, 1725); cafodd reithoraeth Llanfyllin yn 1718 a'i chadw hyd y bu farw a'i gladdu yno yn 1760.

Cyfieithodd yn Gymraeg amryw o ganeuon poblogaidd Lloegr, cyhoeddodd farwnad Ladin i'r frenhines Caroline (London, 1737), Pregeth ar S. Luc ii, 10, 11 (London, 1727), a phregeth a draddododd ar 28 Ebrill 1732, yn y Drenewydd, ar farw Lady Pryce, gwraig Syr John Pryce, Newtown Hall (1732). Cyhoeddwyd yn *Philosophical Transactions of the Royal Society* lythyr ganddo ar bwnc y tân a fu ym Morfa Harlech, 1694. Yr oedd erbyn 1759 yn aelod gohebol o Gymdeithas y Cymmrodorion (a ffurfiwyd ym mis Medi 1751). Eithr ei waith mwyaf adnabyddus, serch ei fod yn brin, ydyw ei gân dychan, yn Lladin, wedi ei theitlo *sive Hoglandiae Descriptio* (London, 1709), a ysgrifennwyd i wrthateb i *Muscipula* (London, 1709), llyfryn gan E. Holdsworth yn difrïo Cymru a'i phobl. Cyhoeddodd hefyd wrthateb arall, gyda fersiwn Saesneg o dan y teitl Hogland: or a description of Hampshire. A Mock Heroic Poem in answer to Mr. Holdsworth's Muscipula (London, 1709) (ail argraffiad yn 1728). Rhydd J. H. Parry (yn *The Cambrian Plutarch*, 344) hanes y modd y bu i Richards ymgymryd â'r gwaith o ateb y dychanwr Seisnig.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


Foster, *Alumni Oxonienses*

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), i, 365, 547; ii, 56, 234, 264

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography


## Gweithiau

Thomas Richards, *The nativity of Christ, matter of great joy to all people. A sermon preach'd at Newtown in Montgomery-shire, on Christmas-Day 1727* (London 1728)

Edmund Gibson, Thomas Richards (cyf.), *Cyngor difrifol i un ar ol bod yn glaf: mewn lythyr oddi wrth Weinidog at un o'i blwyfolion. Gyda diolch i Dduw ar ol myned yn jach o glefyd* (Llundain 1730)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66343231

Wikidata: Q7793510


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu